

Sul Un Byd

Darlleniad: Rhufeiniaid 15: 7-13

Ti, O! Dduw, a glodforwn; ti yr hwn a'th ddatguddiaist dy hun yn Iesu Grist, Goleuni'r Byd. Diolch am rym dy gariad sy'n bwrw i lawr y muriau sy'n gwahaniaethu'r cenhedloedd, am y goleuni sydd wedi symud tywyllwch anobaith oedd yn bygwth heddwch y byd. Diolch am ddysgeidiaeth a chenhadaeth Iesu Grist ac am ei fuddugoliaeth dros bechod ac angau. Diolch am effaith a dylanwad yr emyn, 'Efengyl tangnefedd, O! rhed dros y byd ...' Diolch am y gobaith a ddaeth i holl genhedloedd y byd drwy'r efengyl. Diolch am sêl dy fendith ac am i ti gadarnhau'r addewidion am heddwch drwy dy annwyl Fab Iesu Grist, Gwardwr y byd.

Dyro i ni dy ras bob dydd i gofio ac i ddiolch ein bod bob llwyth, cenedl ac iaith wedi'n creu ar dy ddelw dy hun. Diolchwn am i ti allu cyffwrdd pob calon â goleuni a serch dy sancteiddrwydd drwy Iesu Grist. Helpa ni i gydnabod dy fod wedi coronï'r byd â thrugaredd a thangnefedd. Maddau i ni, O! Dduw, na byddai mwy o dystiolaeth ac o ganmol dy enw mawr ar ein gwefusau. Maddau nad ydym yn cydnabod ac yn diolch digon am dy holl ddaioni a'th haelioni yn y byd. Drwy nerth dy Ysbryd Glân, arwain ni heddiw yn dy ddoethineb i gynnal a chadw 'Sul Un Byd'. Na ad inni golli gwerth, gwefr a dylanwad yr efengyl yn y byd. Maddau ein difrawdwr a'n difaterwch yn ein perthynas â'n gilydd fel brodyr a chwiorydd yng Nghrist. Helpa ni i frwydro mewn cariad i orchfygu'r holl ddrygioni sy'n llygru a difetha ein perthynas â'n gilydd fel cenhedloedd y byd. Gwna i ni wisgo amdanom brydferthwch dy annwyl Fab dy hun, sef Iesu Grist. Maddau inni anghofio grym dy fuddugoliaeth trwy Iesu Grist. Arwain ni yn ein canu a'n tystiolaeth nid yn unig ar Sul arbennig ond bob diwrnod o'r wythnos.

'Na foed neb heb wybod am gariad y Groes;
A brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.'

Caniatâ o'r newydd i'r byd i gyd fwynhau tawelwch a thangnefedd dy efengyl. Ein gweddi a'n dyhead yw ar i ti ychwanegu beunydd dy gariad sy'n canmol dy enw mawr. Dyro inni gymorth i gadw'r Sul mewn dyddiau a chyfnod anodd. Bydded i'r canu a'r canmol ddod o bedwar ban byd. Dyro inni glywed unwaith yn rhagor sŵn y Delyn Aur yn boddi sŵn pob rhyfel. Erys yr alwad arnom i gyd i foli dy enw mawr:

‘Molwch yr Arglwydd, yr holl Genhedloedd, a'r holl bobloedd yn dyblu'r mawl.’

Cryfha a chynorthwya dy Eglwys yn y dyddiau blin hyn i frwydro dros y Sul, ei ysbryd a'i bwrpas. Boed inni barchu a chadw'n fyw gariad, gobaith a goleuni'r efengyl drwy gadw a pharchu'r Sul, a hwnnw'n Sul Un Byd. Ti, O! Dduw, a roddodd i ni y Sul ac un byd i fyw ynddo a'i barchu. Drwy'r byd i gyd, er mwyn heddwch, tangnefedd a chyfiawnder, helpa ni i ddangos ein diolch a'n gwerthfawrogiad drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Dymunwn dy foliannu a'th glodfori. Heddiw, felly, goleua'n meddyliau i'r gwirionedd a ddatguddiwyd i ni yn Iesu Grist.

Dirion a thrugarog Dad, maddau bob diffyg a bai ynom. Cynorthwya ni, bobloedd y byd i gyd, i nesáu mewn edifeirwch at dy orsedd ac at dy ffordd di o fyw.

‘Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr;
A doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr.’ Amen.

Dewi Morris